

Nodiadau cyfarwyddyd ar sut i wneud cais

Canllawiau cyffredinol

Bydd y ffurflen gais yr ydych yn ei llenwi'n chwarae rhan hanfodol yn y broses dethol a bydd yn penderfynu a ddylid eich cynnwys ar y rhestr fer am gyfweiliad ai peidio. Felly mae'n hollbwysig ichi gymryd amser a'i llenwi mor gyflawn ac mor gywir ag sy'n bosibl.

- Darllenwch y disgrifiad swydd, y fanyleb person a'r daflen gyfarwyddyd hon yn ofalus cyn dechrau llenwi'r ffurflen gais. Gallwch lenwi'r ffurflen yn Gymraeg neu yn Saesneg. Rydym yn annog ceisiadau yn Gymraeg a ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg.
- Rhaid llenwi'r ffurflen gais mewn inc du neu deip.
- Mae'r ffurflen gais hon yn ddogfen wedi'i chloi. Dylech beidio â newid fformat y ffurflen mewn unrhyw ffordd gan y gallai hyn arwain at wrthod eich cais.
- Dylech nodi na fyddwn yn derbyn CV yn lle ffurflen gais oni nodir hynny'n benodol.

Cwblhau eich cais

- Rhaid ichi lenwi **holl** adrannau'r ffurflen gais: gall peidio â gwneud hyn arwain at wrthod eich cais. Os na fydd adran yn berthnasol ichi, ysgrifennwch 'amherthnasol' yn y blwch.
- Peidiwch â mynd y tu hwnt i'r terfynau nifer geiriau a nodir yn y ffurflen gais. Ni fyddwn yn ystyried unrhyw ddatganiadau sy'n mynd y tu hwnt i'r terfyn hwn.
- Wrth lenwi'r adran 'Datganiad ategol' o'r ffurflen gais, dylech gyfeirio at bob un o'r meini prawf a restrir yn y fanyleb person, ynghyd â'r dyletswyddau a nodir yn y disgrifiad swydd, er mwyn sicrhau eich bod yn dangos eich gwybodaeth, profiad, sgiliau ac ymddygiadau. Y wybodaeth a roddwch fydd sail y gwerthusiad ar gyfer y rhestr fer.
- Mae'r fanyleb person yn nodi'r meini prawf hanfodol a dymunol mae eu hangen. Rhaid ichi ddangos eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y swydd. Y meini prawf dymunol yw'r sgiliau, cymwysterau a phrofiad a fyddai'n fuddiol, ond nid yn orfodol, i ddeiliad y swydd feddu arnynt. Os ydych yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf dymunol dylech ddangos hyn yn eich cais.
- Llenwch y ffurflen monitro amrywiaeth. At ddibenion monitro gan y tîm Adnoddau Dynol yn unig yw hon, a ni fyddwn yn rhannu'r manylion a roddwch gyda phanel llunio'r rhestr fer na'r panel cyfweld.
- Rydym yn argymhell ichi gadw copi o'ch ffurflen gais wedi'i llenwi ac o'r disgrifiad swydd.

Cyflwyno'r cais

- Rhaid i'r ffurflenni cais ein cyrraedd erbyn y dyddiad cau a nodir yn yr hysbyseb a/neu'r ffurflen gais.
- Mae'r ffurflen gais ar gael fel dogfen MS Word ac fel ffeil pdf: fe'ch anogir i lenwi'r ffurflen yn electronig a'i hanfon, ynghyd â'r ffurflen monitro amrywiaeth, trwy e-bost at swyddi@cga.cymru
- Os ydych yn anfon eich cais trwy e-bost, dylech nodi y caiff yr amser y daw eich cais i law ei ddiffinio gan weinydd CGA.

Cydnabod y cais

Nid ydym fel arfer yn cydnabod bod ceisiadau wedi dod i law, ond mae croeso ichi gysylltu â'r tîm recriwtio ymlaen llaw i wirio a yw'ch ffurflen cais wedi cyrraedd os ydych yn pryderu.

Llunio'r rhestr fer

Caiff yr holl benderfyniadau ynghylch llunio'r rhestr fer eu seilio i ddechrau ar y meini prawf hanfodol, gan ddefnyddio'r meini prawf dymunol i dethol ymgeiswyr ymhellach fel bo'n briodol.

Rydym yn cyfweld â'r ymgeiswyr hynny sy'n cydweddu agosaf â'r meini prawf a nodir. Os bydd sgôr uchel gan nifer fawr o ymgeiswyr am swydd, efallai na fyddwn yn eich galw am gyfweiliad hyd yn oed os ydych wedi dangos ar eich ffurflen gais eich bod yn bodloni'r holl feini prawf. Mae'n bosibl bod ymgeiswyr eraill wedi dangos eu bod yn bodloni rhai o'r meini prawf dymunol neu bob un ohonynt, yn ogystal â'r meini prawf hanfodol, neu wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf yn fanylach a/neu'n fwy perthnasol.

Amserlen recriwtio

Byddwn yn rhoi gwybod ichi beth yw canlyniad eich cais, p'un ai ydych ar y rhestr fer i gael cyfweiliad ai peidio. Mae hyn yn digwydd fel arfer rhwng un a thair wythnos ar ôl y dyddiad cau.

Hysbysiad preifatrwydd

Rydym yn cymryd ein dyletswydd i brosesu'ch data personol o ddifrif. I gael gwybod mwy am sut yr ydym yn casglu, rheoli, defnyddio a diogelu'ch data personol, darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd: <https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/hysbysiad-preifatrwydd.html>

Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch eich cais neu'r broses recriwtio, cysylltwch â'r tîm recriwtio trwy anfon neges e-bost at swyddi@cga.cymru neu ffonio 02920 460099.